Waeth i ble yr âi câi dderbyniad croesawgar ar aelwydydd lletygar a mwynheai haelioni mawr ar ran Saeson a Chymry, nid yn unig at yr achos ond yn benodol iddo ef ei hun a'i deulu (yn arian, yn ddillad ac yn llyfrau a hyd yn oed unwaith siwgr a the, amheuthun bethau'r adeg honno).

* * *

GALLAI fynd oddi cartef am hydoedd gan wybod fod drws ei gapel ar agor i'r ffyddloniaid a bod ei wraig a'i swyddogion yn cadw'r achos i ffynnu yn ôl y drefn a ddysgodd ef iddynt. Cododd do o swyddogion a ysgwyddai'r baich pan oedd gofyn iddynt yn fodlon, yn ofalus ac yn deyrngar iddo ef ac i enwad yr Annibynwyr Cymraeg.

Casglodd ar hyd a lled De Cymru (ni fu o gwbl yn y Gogledd) a De Lloegr. Hoffai fynd i'r olaf am ei fod yn gallu ymarfer ei Saesneg carbwl. Ond yn aml iawn fe lithra geiriau ac ymadroddion Saesneg ac weithiau baragraffau a thudalennau cyfan i'w hunangofiant.

Aeth i Lundain yn 1830 a sawl gwaith wedyn gan wneud cyfeillion mawr yno. Un tro dychwelodd adre gyda dros £166. Buasai ei wraig ym Mryste a chasglu dros £20. Gwelwn restr ar ôl rhestr yn y ddwy gyfrol o gyfraniadau o ychydig geiniogau hyd at bunt ac weithiau dros hynny gan wragedd a dynion, ac ymddengys enwau llawer ohonynt fwy nag unwaith.

Yn ateb i gwestiwn gan Lewis Edwards, y Bala, pam yr oedd pobl mor garedig wrtho ac yn rhoi cymaint iddo, dywedodd: "Yn gyntaf mae Lewis Powell a gwaith da, Syr. Yn ail, mae Lewis Powell a mishtir da, Syr. Yn drydydd, mae Lewis Powell yn mynd at bobl dda, Syr, fel Mrs. Edwards a thithe, Syr. Yn bedwarydd, mae Lewis Powell ag ACHOS DA. Yr achos yw y peth, Syr".

Pan bregethai yn Llundain, yn arbennig, deuai torfeydd i wrando arno oherwydd ei hynodrwydd a'i hynawsedd anghyffredin. Meddai wrth un person: "mae mor hyfryd gen i weddïo am lwyddiant yr Efengyl yn yr eglwysi a'r cathedrals ag yw gweddïo am lwyddiant yr Efengyl yn y capeli a'r tai cyrddau". Pregethai "o amgylch y ddinas fawr, ar hyd y strydoedd, a'r paving, a'r [sic] hyd y Thames, yn y llongau gan y morwyr."

Ar ôl gorffen casglu tuag at Ebeneser, gyda chaniatâd parod ei eglwys, aeth Lewis Powell i gasglu tuag at gapel Zoar, Castell Nedd ac fe gasglodd dros £193 a chael arian iddo'i hun yn ogystal.

* * *

PAN OEDD gartref yr oedd yn weinidog ymroddedig. Ar y Sul yr oedd chwe gwasanaeth o saith y bore ac yn gorffen wn i ddim pryd, oherwydd wedi gwasanaeth yr hwyr byddai'n cynnal gwasanaethau mewn ardaloedd eraill yng Nghaerdydd.

Yn ystod yr wythnos yr oedd gwasanaethau megis cyrddau gweddi a dosbarth Beiblaidd a chyrddau cymdeithasol i'r gwŷr ifainc, a byddai Lewis Powell yn mynd allan i'r wlad o amgylch — rai milltiroedd o Ebeneser — i gynnal cyrddau gweddi, cymdeithasau a chyrddau pregethu. Bu'r eglwys ac yntau ar hyd yr amser yn heddychlon a châi ef bob parch ganddi.

Pan ymddeolodd ddiwedd 1851 oherwydd llesgedd a methiant (a oes rhyfedd am hynny?) ymateb aelodau Ebeneser oedd rhoi pensiwn o £12 y flwyddyn iddo tra byddai byw, hawl i bregethu bedair gwaith y flwyddyn gyda'r tâl arferol am hynny, a bu canmoliaeth fawr i'r eglwys am hynny. Ac wrth gwrs deuai ei hunangofiant â pheth arian iddo canys gwerthodd yn dda dros ben.

Bu fyw am ddeunaw mlynedd wedi ymddeol a mawr fu'r clod i Ebeneser a'r addefiad ei bod yn unigryw ymysg eglwysi. Yn ben ar y cyfan fe dalodd hi am ei gladdedigaeth ac am y garreg ar ei fedd.

Pan dynnwyd yr hen Ebeneser i lawr yn 1978 bu raid codi'r cyrff yn y fynwent a'u claddu ym mynwent gyhoeddus Cathays, Caerdydd. Ond cafodd Lewis Powell angladd arbennig ar fore hyfryd o fis Mai yr un flwyddyn pan ddaeth nifer ohonom i'w gladdu gyda pharch ac anrhydedd fel a haeddai.

Onibai iddo ef weithio mor ddygn pan godwyd yr Ebeneser gyntaf byddai hanes yr Annibynwyr Cymraeg yn y brifddinas dipyn gwahanol i'r hyn ydyw. Fis Medi eleni byddwn yn gosod carreg i nodi'r fan lle gorwedd ei weddillion marwol.

Yn yr ystafell y tu ôl i'r pulpud yn ein Hebeneser presennol yn Heol Siarl hongia darlun olew o Lewis Powell gan ap Caledfryn (1837-1915) mab Caledfryn, gweinidog eglwys y Groeswen rhwng 1857 a 1869, cyfaill agos i Lewis Powell.


# Siop Lyfrau'r Hen Bost

## 45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog
## Gwynedd LL41 3AA
## Ffôn: 0766 831802

1. SALESBURY, William: A Dictionary in Englyshe & Welshe, adargraffiad, 1877, pedwar rhan. 38.00
2. JONES, J. (Myrddin Fardd): Llên Gwerin Sir Gaernarfon, 1908. 7.00
3. WILLIAMS, J. Lloyd: Byd y Blodau, 1924. 7.00
4. A Nation & It's Books, 1916. 7.50
5. ROWLANDS, William: Llyfryddiaeth y Cymry, 1869. 12.50
6. WALTERS, John: An English & Welsh Dictionary, 3ydd arg. 1828. 20.00
7. Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Ffestiniog, 1898. Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol. 15.00
8. WILKINS, Charles: Wales Past & Present, 1870. 18.00
9. Marwnad a Ysgrifennwyd Mewn Mynwent Wledig, 1942, argraffwyd yn Ninas Mecsico. 8.00
10. JONES, E. O: (Cyfieithydd): Welsh Lyrics of the Nineteenth Century, 1896. 9.50
11. WILLIAMS, D. J: Y Bod Cenhedlig, 1963, llofnod D. J. Williams. 6.00
12. HANMER, John: A Memorial of the Parish & Family of Hanmer in Flintshire, 1876. 45.50
13. WATTS, Thomas: A Sketch of the History of the Welsh Language & Literature, d.d. 22.00
14. ROBERTS, E. & PERTWEE, H. A: St. Illtyd's Church, Pembrey, Its History & Its Architecture, 1896. 7.00
15. TODD, J: Darlithiau i Blant, 1868. 3.00
16. GRIFFITH, G. W: Helynt Coed y Gell, 1868. 3.00
17. DAVIES, L: Lewsyn yr Heliwr, 1922. 2.00
18. HUGHES, W. Francis (William Oerddwr): Cerddi William Oerddwr, 1954. 4.50
19. Y Wenynen Bach neu Gasgliad o Ganiadau Buddiol a Moesol, Llanrwst 1840. 5.00
20. LEWIS, Saunders: Cymru Wedi'r Rhyfel, d.d. 4.00
21. LEWIS, Saunders: Wales after the War, d.d. 4.00
22. Canmlwyddiant yr Achos Methodistaidd ym Mhentref Llanrhaiadr, gerllaw Dinbych, 1809-1909. 2.00
23. JONES, T. Gwynn: Cofiant Emrys ap Iwan, 1912. 5.50
24. JONES, A: The Story of Glamorgan, 1955. 6.00

Mân Bamffledi:

25. PHILLIPS, H.D: The Early Quakers in Wales,d.d.20 tud 1.50
26. DERFEL, R. J: Owen Glyndwr with Explanatory Notes (Derfels Schools Series) d.d. 17 tud. 1.50
27. PRICHARD, Caradog: Y Rhai Addfwyn, 1971. 24 tud 2.00
28. HUGHES, J: Hedyn Mwstard, 1877. 54 tud. 2.50
29. NICHOLAS, T. E: Weithwyr Cymru! Cenwch eich hunain i ryddid, d.d. 3 tud. 2.50
30. JONES, Rhys G: Caru, Priodi a Byw, d.d. 5ed arg (clawr cefn briw) 64 tud. 2.00